Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru

## Canllawiau i ysgolion a cholegau

www.cymru.gov.uk









## Canllawiau

Dogfen ganllawiau Rhif: 059/2011
Dyddiad cyhoeddi: Diwygiwyd Hydref 2011
Yn disodli Dogfen ganllawiau Rhif: 043/2010

# Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru

**Cynulleidfa**

Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu'r holl ysgolion a gynhelir; colegau a darparwyr dysgu eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc 14 i 19 oed; awdurdodau lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; ColegauCymru/CollegesWales; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar ddarparu addysg ariannol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru. Felly, fe'i darperir ar gyfer cyrff llywodraethu, uwch dimau rheoli ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a cholegau sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio a chyflwyno agweddau ar addysg ariannol.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Cefnogi'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: UAAC@cymru.gsi.gov.uk
http://addysg-ariannol.ngfl-cymru.org.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon i'w weld ar wefan Lywodraeth Cymru yn unig yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

*Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009); *Cynllun Strategol Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) 2009–11* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009); *Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Prif lun clawr diolch i www.freeimages.co.uk

ISBN: 978 0 7504 6775 9
© Hawlfraint y Goron 2011
WG13901
Cyf: CAD/GM/0201

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Addysg ariannol** | **4** |
| **Cynnwys pob dysgwr** | **8** |
| **Sgiliau ar draws y cwricwlwm** | **10** |
| **Strategaethau dysgu ac addysgu** | **13** |
| **Rheoli darpariaeth addysg ariannol** | **18** |
| **Atodiad 1: Gallu ariannol** | **21** |
| **Atodiad 2: Cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol ar draws y cwricwlwm** | **26** |
| **Atodiad 3: Adnoddau defnyddiol** | **29** |
| **Atodiad 4: Syniadau ar gyfer cychwyn arni/gwella safonau** | **33** |
| **Atodiad 5: Partneriaid posibl** | **37** |
| **Atodiad 6: Deunyddiau cefndirol** | **39** |

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar ddarparu addysg ariannol ar gyfer rhai 7 i 19 oed mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru. Mae'n nodi'r cyfleoedd ar gyfer darparu addysg ariannol ac yn darparu canllawiau ar strategaethau dysgu ac addysgu. Mae hefyd yn cynnwys cyngor ar adnoddau addysgu a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno dull gweithredu cynlluniedig o ran darparu addysg ariannol.

Felly, darperir y canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu, uwch dimau rheoli ac ymarferwyr/athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a cholegau sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio a chyflwyno agweddau ar addysg ariannol.

## Cyd-destun polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i fynd i'r afael ag allgau ariannol. Mae'r ddogfen *Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)[1] yn rhoi ymrwymiad clir i roi sylw i'r rhwystrau i gynhwysiant ariannol ac i gefnogi'r rhai na all fforddio i fod wedi'u hallgau'n ariannol.

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae gwneud penderfyniadau ariannol da yn bwysicach nac erioed. Dylai pawb ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau, gwybod ble i fynd am gymorth os byddan nhw ei angen a bod yn wyliadwrus o unrhyw gynigion sy'n ymddangos 'yn rhy dda i fod yn wir'. Ein gweledigaeth yw i'n holl ddinasyddion gael mynediad at gynhyrchion ariannol fforddiadwy a'r hyder a'r gallu i'w defnyddio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Rydyn ni eisiau i bobl allu cynllunio ar gyfer eu dyfodol gyda lefel resymol o sicrwydd ac i gael yr wybodaeth gywir a'r sgiliau a'r wybodaeth i osgoi mynd i drafferthion ariannol.

## Addysg ariannol

Drwy wella'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion ariannol, mae modd i bobl wneud penderfyniadau doeth a bod yn ddefnyddwyr hyderus.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian, y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr/Awdurdod Gwasanaethau Ariannol o'r blaen, yn arwain strategaeth genedlaethol mewn partneriaeth â'r llywodraeth, y diwydiant gwasanaethau ariannol a grwpiau gwirfoddol, defnyddwyr ac addysg i wella gallu ariannol y boblogaeth. Mewn partneriaeth â

[1] Gellir cael mwy o wybodaeth am Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yma.

Llywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian yn gweithio gydag ymarferwyr mewn colegau, lleoliadau ieuenctid a phrifysgolion i dargedu pobl ifanc a dysgwyr i sicrhau fod cefnogaeth a chymorth ar gael cyn i argyfwng ddigwydd.

Mae gan ysgolion a cholegau gyfle unigryw i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at arian o oed cynnar a chyrraedd pob rhan o gymdeithas, gan gynnwys llawer o unigolion a allai ddod yn llawer anoddach eu cyrraedd yn ddiweddarach.

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod addysg ariannol wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm, yn bennaf ym mathemateg, ac fe'i cyflwynwyd mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru o fis Medi 2008 ac yn y *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* ac yn *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*[2].

## Uned Addysg Ariannol Cymru

Sefydlwyd Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian i gefnogi cyflwyno addysg ariannol. Mae'r uned yn gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ac mewn partneriaeth ag addysg bellach a'r gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysg ariannol a'r gefnogaeth gall UAAC ei darparu
- darparu canllawiau a chyngor i ymarferwyr ar wneud y defnydd gorau o gyfleoedd am addysg ariannol yn y cwricwlwm
- darparu cyngor ar ddeunyddiau ac adnoddau addysgu priodol a chefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
- datblygu adnoddau sy'n cydnabod anghenion cwricwlwm ac ieithyddol arbennig Cymru
- canfod a lledaenu ymarfer da o ran darparu addysg ariannol o bob rhan o Gymru a ledled y DU.

Nodir manylion rhaglen waith UAAC am 2009–11 yn *Cynllun Strategol Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) 2009–11* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).



[2] Mae gwybodaeth bellach ar y cwricwlwm a gyflwynwyd mewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru o fis Medi 2008 ar gael ar wefan Lywodraeth Cymru.

# Addysg ariannol

Mae addysg ariannol yn anelu at sicrhau bod dysgwyr yn ariannol-alluog.

Gellir rhannu gallu ariannol yn dair thema gysylltiedig – gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol, sgiliau a chymhwysedd ariannol, a chyfrifoldeb ariannol. Mae'r themâu'n gorgyffwrdd ac yn gysylltiedig.

- **Gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol** – sef bod â gwybodaeth a dealltwriaeth o natur arian a golwg graff ar ei swyddogaeth a'r defnydd sydd iddo.
- **Sgiliau a chymhwysedd ariannol** – sef gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion ariannol ar draws ystod o gyd-destunau er mwyn ymdrin â materion rheoli arian o ddydd i ddydd ac i ddechrau meddwl am gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- **Cyfrifoldeb ariannol** – sef bod yn ymwybodol fod penderfyniadau ariannol ac ynghylch arian â chysylltiad agos â barnu gwerth a gallan nhw gael effaith, nid yn unig ar y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, ond hefyd ar eu teulu ac ar y gymuned.

Cynigir dadansoddiad manwl o sut gallai'r tair thema gysylltiedig hyn ymddangos i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac mewn lleoliadau 11–19 yn Atodiad 1.

## Cyfleoedd i gyflwyno addysg ariannol

Gan adeiladu ar y sgiliau a'r deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen, mae elfennau penodol o addysg ariannol wedi'u cynnwys yn y dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- *Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*
- *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*
- *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*

## Cyfnod Allweddol 2

### Mathemateg

**Mesurau ac arian: Deall a defnyddio arian**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- wybod a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian
- darganfod atebion bras i'r pedwar gweithred, a'u defnyddio i ddatrys problemau sy'n cynnwys arian
- deall dangosydd cyfrifiannell mewn perthynas ag arian, *e.e. bod dangos 21.4 (punt) yn golygu £21.40*
- bod yn ymwybodol o arian cyfred eraill.

### Addysg bersonol a chymdeithasol

**Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:

- bod arian yn cael ei ennill trwy weithio ac y gall arian brynu nwyddau a gwasanaethau
- pwysigrwydd gofalu am eu harian a'r manteision sy'n gysylltiedig â chynilo arian yn rheolaidd.

## Cyfnod Allweddol 3

### Mathemateg

**Mesurau ac arian: Deall a defnyddio arian**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddeall a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian
- cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian cyfred
- dehongli dangosydd cyfrifiannell mewn perthynas ag arian.

### Addysg bersonol a chymdeithasol

**Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:

- canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr, *e.e. Masnach Deg*
- sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus a sylweddoli bod cynilo arian yn arwain at annibyniaeth ariannol.

### Gyrfaoedd a'r byd gwaith

**Deall y byd gwaith**

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth.

## Cyfnod Allweddol 4

### Mathemateg

**Mesurau ac arian: Deall a defnyddio arian**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddeall a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian
- cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian cyfred, elw a cholled, disgownt, hurbwrcas, y bargeinion gorau, biliau tŷ a llog cyfansawdd
- dehongli dangosydd cyfrifiannell mewn perthynas ag arian.

### Addysg bersonol a chymdeithasol

**Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes**

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddeall:

- eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb
- pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol, a sut i gael gafael ar gyngor ariannol.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

### Deall y byd gwaith

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd.

## Addysg ariannol i ddysgwyr 16 i 19 oed

## Addysg bersonol a chymdeithasol

### Gwella'ch dysgu eich hun

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- werthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion arian personol yn effeithiol.

### Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddeall eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli'u materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

### Deall y byd gwaith

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuraidd tuag at waith a chreu cyfoeth.

Er hynny, ceir cyfleoedd i ddatblygu a gwreiddio addysg ariannol ar draws y cwricwlwm, mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion ac aeddfedrwydd dysgwyr ar bob cam o'u haddysg ffurfiol.

# Cynnwys pob dysgwr

## Cyfrifoldebau ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar darparwyr dysgu yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai darparwyr dysgu feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylen nhw gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai darparwyr dysgu ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ddarparwyr dysgu weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ddarparwyr dysgu gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylen nhw:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai darparwyr dysgu geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig, ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai darparwyr dysgu gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylen nhw ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylen nhw hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

## Hawliau dysgwyr

Dylai darparwyr dysgu yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r darparwyr dysgu addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall darparwyr dysgu ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylen nhw ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai darparwyr dysgu gynnig mwy o her iddyn nhw drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai darparwyr dysgu ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

# Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu hasesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Hanfodol.

Drwy addysg ariannol, bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n hyrwyddo gallu ariannol ac yn datblygu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd gallu gwneud dewisiadau doeth a dewisiadau ynghylch cyllid personol. Byddan nhw'n dod yn fedrus a hyderus o ran canfod ac ymdrin â phroblemau neu faterion ariannol bod dydd.

## Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn addysg ariannol, bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o faterion ariannol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw fod yn wybodus, medrus, ystyriol a hyblyg. Drwy gyd-destunau ymarferol ac o fywyd go iawn, bydd y dysgwyr yn cynllunio a gosod nodau wrth wneud tasgau sy'n golygu cydweithio a gwerthuso cynnydd. Byddan nhw'n cydweithio i ganfod a chofnodi gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn dysgu gwahaniaethu rhwng ffaith a barn a chwestiynu dibynadwyedd tystiolaeth.

## Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn addysg ariannol, drwy ymchwil, chwarae rôl a dadl, bydd y dysgwyr yn rhannu gwybodaeth, dadlau, perswadio, ymchwilio i faterion a chynnig a gwerthuso barn. Byddan nhw'n gwrando ac yn gwerthfawrogi safbwyntiau pobl eraill ac yn defnyddio'r rhain i adeiladu ar feddwl. Byddan nhw'n ystyried a dadansoddi'r ffyrdd byddwn ni'n dehongli iaith a thestun o ystod o gyfryngau gan gynnwys TGCh a sut gall hyn effeithio arnyn nhw ac ar eraill.

## Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn addysg ariannol, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh drwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a thrwy ddefnyddio technoleg i ymchwilio, datblygu a chyflwyno'u gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys cronfeydd data a thaenlenni. Byddan nhw'n canfod gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau TGCh gan gynnwys y rhyngrwyd ac yn dechrau cwestiynu bias y ffynonellau hyn. Byddan nhw'n dod yn ymwybodol o beryglon posibl arferion masnachol a dargedir at bobl ifanc ac yn defnyddio efelychiad o senarios bywyd go iawn i ddatblygu craffter fel defnyddwyr ac i leihau risg i'r eithaf.

## Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, a **dehongli a chyflwyno canfyddiadau**.

Mewn addysg ariannol, bydd y dysgwyr yn dewis a defnyddio dulliau cyfrifo priodol i ddatrys problemau mewn ystod o gyd-destunau o fywyd go iawn yn ymwneud ag arian, gan gynnwys arian tramor. Byddan nhw'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o

ffynonellau gan gynnwys TGCh ac yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau doeth ynghylch rhinweddau ac effeithiau nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys gwerth am arian. Byddan nhw'n datblygu ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas wrth gyfathrebu canfyddiadau a data.

## Cwricwlwm Cymreig

Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae addysg ariannol yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn weithredol mewn gweithgareddau sy'n caniatáu iddyn nhw archwilio a deall y ffactorau sydd wedi siapio Cymru gan gynnwys anghydraddoldebau o fewn a rhwng cymunedau sy'n effeithio ar fywyd bob dydd. Mae hyn yn paratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau a dewisiadau bywyd yn eu cymunedau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

# Strategaethau dysgu ac addysgu

Mae'r Gorchymyn mathemateg, y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol, a'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith yn rhoi pwyntiau cyfeirio pwysig i uwch dimau rheoli ac ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio a chyflwyno agweddau ar addysg ariannol. Er hynny, fel y nodwyd eisoes, ceir hefyd gyfleoedd i ddatblygu addysg ariannol yn y rhan fwyaf o bynciau, mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion ac aeddfedrwydd dysgwyr ar bob cam o'u haddysg ffurfiol.

Wrth addysgu am faterion ariannol a thrafodaethau cysylltiedig, mae'n hanfodol i ymarferwyr ystyried amrywiaeth cefndiroedd cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol dysgwyr a'r profiadau amrywiol sydd ganddyn nhw o bynciau addysg ariannol a allai fod yn ddiwylliannol sensitif.

Mae gwefan addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) Llywodraeth Cymru yn nodi materion ariannol megis dyledion a thlodi fel materion a allai fod yn sensitif ac yn cynnig canllawiau ar sut gellid ymdrin â nhw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Dylai ymarferwyr amddiffyn preifatrwydd dysgwyr drwy ddadbersonoli trafodaethau. Mae technegau ymbellhau yn helpu dysgwyr i drafod materion sensitif a datblygu eu sgiliau penderfynu mewn amgylchedd 'diogel', er enghraifft:

- chwarae rôl, a all helpu dysgwyr i ymarfer sgiliau ac ymddygiadau
- defnyddio deunyddiau sbarduno megis ffotograffau, hysbysebion, erthyglau papur newydd
- astudiaethau achos gyda chymeriadau ffug gall dysgwyr uniaethu â nhw.

## Dewis cyd-destunau perthnasol

Dylai cyd-destun cyflwyno addysg ariannol fod yn berthnasol i ddysgwyr heddiw ac yn y dyfodol agos a dylai hyn oleuo'r gwaith cynllunio. Dylai ymarferwyr gymryd sylw o ddata ar gyfer y gymuned leol megis ystadegau ar amddifadedd, graddau allgau ariannol, patrymau cyflogaeth, lefelau dyledion personol a materion cysylltiedig megis benthyca arian yn ddiegwyddor, daliadaeth tai ac eraill.

## Cyfnod Allweddol 2

Ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y rhan fwyaf o'u 'hincwm' ar ffurf arian poced neu fel rhodd. Er hynny, os ydyn nhw am ddod yn ddefnyddwyr grymus, bydd angen iddyn nhw ystyried:

- o ble mae'r 'incwm' hwn yn dod
- ble mae'n mynd
- sut i'w gadw'n ddiogel
- effaith eu dewisiadau gwario yn lleol ac yn y byd ehangach.

## Cyfnod Allweddol 3

Mae dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 yn debygol o fod ag 'incwm' cyfyngedig a bydd eu gwariant yr un mor gyfyngedig. Byddan nhw hefyd angen gwybod sut i gadw'u harian yn ddiogel a sicrhau eu bod yn cael gwerth da pan fyddan nhw'n ei wario. Bydd tariff ffonau symudol yn fwy perthnasol na thariff cyfleustodau a chynilo arian ar gyfer diwrnod allan yn fwy realistig na chynilo i brynu car.

Mae gwaith rhan-amser a mwy o arian poced yn ehangu cyfleoedd i wario arian, yn ogystal ag i gynilo, gobeithio, wrth iddyn nhw symud ymlaen drwy eu blynyddoedd yn yr ysgol uwchradd. Bydd eu harferion gwario, ar y stryd fawr ac ar-lein, yn gynyddol dan ddylanwad hysbysebion llawn perswâd yn ogystal â'r dymuniad i gael gwerth am arian. Er hynny, mae angen iddyn nhw ddatblygu ymwybyddiaeth o effeithiau ehangach eu dewisiadau o ran gwariant a rhoddion (elusennol), a rhai eu teuluoedd, a'r effeithiau a'r newid gall y rhain eu hachosi yng nghyswllt gweithgaredd economaidd, masnach, datblygiad cynaliadwy a chymorth.

## Cyfnod Allweddol 4 a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16–19 oed

Bydd llawer o ddysgwyr angen cynllunio'n ariannol ar gyfer cwblhau eu haddysg a bydd eraill angen deall eu slip cyflog cyntaf. Bydd pob dysgwr yn gallu cael gafael ar gredyd wrth gyrraedd 18 oed a bydd llawer o ddysgwyr hŷn ag uchelgais i fyw'n annibynnol. I'r rhai 14–19 oed mae'n briodol dewis cyd-destunau sy'n gyson â'r dyheadau hyn sy'n ehangu. Mae angen egluro materion ariannol hyd yn oed mwy cymhleth sy'n ymddangos ymhell iawn i ffwrdd i'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgol, megis yswiriant, morgeisi a phensiynau, a'u gwneud yn berthnasol.

Mae'r enghreifftiau yn Atodiad 2 yn dangos sut gellid addysgu'r agweddau hyn ar addysg ariannol ar draws y cwricwlwm.

## Strategaethau addysgu

Bydd ymarferwyr yn adnabod eu dysgwyr a bydd eu profiadau o weithio gyda nhw'n goleuo'r dewis a wnânt o ran strategaethau addysgu. Dylai addysg ariannol effeithiol gynnwys amrywiaeth o weithgareddau er mwyn rhoi sylw i wahanol arddulliau dysgu, er enghraifft:

- gwaith mewn pâr a gwaith mewn grŵp
- cystadlaethau a gweithgareddau'n seiliedig ar gwisiau
- gemau rhyngweithiol
- gweithgareddau datrys problemau – yn unigol neu mewn grŵp
- gemau bwrdd, didoli cardiau a gweithgareddau ymarferol eraill
- dadleuon
- chwarae rôl, drama a rhoi cyngor 'modryb gofidiau' a'r gadair goch
- addysgu dosbarth cyfan
- ymchwil a darllen unigol
- holiaduron – i annog myfyrio neu i gasglu gwybodaeth ar agweddau ar ymddygiad ariannol.

Nodir enghreifftiau o sut gellid defnyddio'r gweithgareddau uchod i ddatblygu gallu ariannol mewn amrywiaeth o bynciau mewn ysgolion cynradd ac mewn lleoliadau 11–19, yn Atodiad 2 ac Atodiad 4.

## Dyddiau gohirio'r amserlen

Gall dyddiau gohirio'r amserlen, er mwyn canolbwyntio ar addysg ariannol, gyfoethogi ond ni ddylen nhw gymryd lle, gwersi wedi'u hamserlennu. Maen nhw'n caniatáu'r defnydd effeithlon o bartneriaid allanol a all weithio gyda sawl dosbarth yn ystod un diwrnod ysgol. Mewn lleoliadau 11–19, gall dyddiau gohirio'r amserlen hefyd fod yn ffordd dda o ddenu cefnogaeth ystod o adrannau, ac annog yr holl staff i weld addysg ariannol fel rhan naturiol o'u pwnc.

Gall dyddiau o’r fath hefyd gael canlyniadau cadarnhaol gan gynnwys cynhyrchu gwaith ar gyfer portffolios Sgiliau Hanfodol.

## Defnyddio cyfleoedd yn yr ysgol

Mae bywyd ysgol yn darparu profiadau gwirioneddol o reoli arian i ddysgwyr, er enghraifft:

- cyllidebu cyfranogol drwy gynghorau ysgol
- gweithio gydag undebau credyd yn yr ysgol
- trefnu a rheoli agweddau ariannol mentrau elusennol neu gymunedol (efallai fel rhan o Bagloriaeth Cymru neu Wobr Dug Caeredin)
- cynllunio ariannu tripiau ac ymweliadau
- defnyddio arian tramor ar dripiau ysgol a theithiau cyfnewid ar y cyfandir
- cymryd rhan mewn prosiectau menter
- ymwneud â mentrau Eco-ysgolion, Ysgolion Masnach Deg a Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, megis rhedeg siop ffrwythau.

Mae gweithgareddau o’r fath yn cynnwys rheoli arian a datrys problemau ariannol – sgiliau sydd hefyd yn amlwg yn bwysig wrth reoli cyllid personol.

Gallai profiadau sy’n canolbwyntio ar waith gynnig cyfleoedd pellach i gael profiad o faterion ariannol go iawn.

## Gweithio gyda phartneriaid o’r tu allan i’r ysgol

Nid cyfrifoldeb ysgolion yn unig yw addysg ariannol. Mae’r rhaglenni mwyaf effeithiol i’w gweld yn yr ysgolion hynny sy’n gweithio ar y cyd ag asiantaethau allanol. Gallai ysgolion ystyried gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned, megis y mudiadau a restrir yn Atodiad 5, wrth gyflwyno addysg ariannol. Efallai bydd rhai’n gallu darparu staff i weithio gyda dysgwyr mewn ysgolion. Bydd rhai o bosib yn cynnig cefnogaeth ar ffurf cyngor neu adnoddau.

Dylai ysgolion ddarllen y canllawiau ar ddefnyddio ymwelwyr ar wefan ABCh Llywodraeth Cymru. Mae’r wefan hefyd yn cynnwys dolen i restr wirio ddefnyddiol ‘Rôl ymwelwyr mewn ABCh’.

## Cymwysterau

Ceir crynodeb o'r cymwysterau ar draws y DU sy'n canolbwyntio ar addysg ariannol drwy'r ddolen ganlynol ar wefan y Personal Finance Education Group (pfeg). Mae'n rhestru cymwysterau a gynigir ar amrywiaeth o lefelau a gan ystod o ddarparwyr gan gynnwys y prif gyrff dyfarnu a darparwyr arbenigol megis *ifs* School of Finance.

Mae rhestr debyg sy'n canolbwyntio ar addysg oedolion ar gael drwy'r ddolen ganlynol ar wefan Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE). Mae'n ddefnyddiol gan ei fod yn dangos dilyniant o Lefel Mynediad 2 i Lefel 4.

Mae sawl cymhwyster arall yn gofyn am rywfaint o waith addysg ariannol. Er enghraifft, ceir peth cynnwys addysg ariannol yng nghwrs byr TGAU ABCh CBAC ac mae cymhwyster Edexcel BTEC WorkSkills yn cynnwys uned ar reoli arian, ac felly hefyd rhai cymwysterau ASDAN.

Gallai'r modiwlau addysg ariannol byr ar sail credydau a gynigir gan Rwydwaith y Coleg Agored, ac yng Nghymru gan Agored Cymru (RhCA Cymru gynt), hefyd apelio mewn rhai cyd-destunau addysgol.

Gellir defnyddio addysg ariannol hefyd fel cyd-destun i gynhyrchu tystiolaeth portffolio er mwyn asesu Sgiliau Hanfodol dysgwyr, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

# Rheoli darpariaeth addysg ariannol

I sicrhau cysondeb a dilyniant addysg ariannol i bob dysgwr ar bob cam o'u dysgu, mae angen i reolwyr ac ymarferwyr ystyried ym mhle a sut gellir darparu cyfleoedd allweddol ar gyfer dysgu ariannol mewn gwahanol feysydd ac agweddau ar gwricwlwm yr ysgol.

Yn yr ysgol gynradd, bydd hyn yn golygu nid yn unig addysgu addysg ariannol drwy gyd-destun un o bynciau, meysydd neu brosiectau'r cwricwlwm, ond hefyd drwy brofiadau dysgwyr yn eu bywyd bob dydd a rhai cymuned yr ysgol.

Mewn ysgolion uwchradd lle mae addysg ariannol ond yn cael ei gyflwyno yn ystod ABCh a mathemateg, yn amlwg bydd angen cydlynu rhwng y ddwy adran. Mae'r ffaith fod llawer o ysgolion yn gosod dysgwyr mewn setiau ar gyfer mathemateg a'u haddysgu mewn grwpiau gallu cymysg ar gyfer ABCh yn golygu fod sialensiau penodol i'r cydlynu hwn. Os yw'r ystod gyflawn o gyfleoedd a amlinellir yn Atodiad 2 am gael ei defnyddio yna mae'r dasg gydlynu hon yn bwysicach fyth.

Dylai ysgolion ystyried dynodi aelod o staff i fod yn gyfrifol am gydlynu dysgu ac addysgu addysg ariannol er mwyn datblygu a sicrhau agwedd ysgol gyfan. Bydd hyn yn golygu:

- datblygu a rheoli gweithrediad rhaglen gydlynol o addysg ariannol
- canfod anghenion datblygu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chyflwyno addysg ariannol a rhoi sylw iddyn nhw.

## Gwella dealltwriaeth ymarferwyr o gyllid personol

Dylid cydnabod nad yw ymarferwyr bob amser yn hyderus ynghylch eu sgiliau rheoli arian eu hunain a gallai hyn fod yn rhwystr i gyflwyno rhaglenni addysg ariannol yn effeithiol.

Mae llawer o adnoddau addysg ariannol yn cynnwys rhestrau termau er mwyn esbonio'r *jargon* ac nid ydyn nhw'n cymryd yn ganiataol bydd gan athrawon lawer iawn o wybodaeth gefndirol am y pynciau. Mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian yn cynhyrchu cyfres ragorol o gyfarwyddiadau gam wrth gam ar ystod eang o bynciau cyllid personol gellir eu harchebu neu'u lawrlwytho oddi ar eu gwefan yn http://yourmoney.moneyadviceservice.org.uk/publications Mae'r rhain yn galluogi athrawon i ddiweddaru'u gwybodaeth yn gyflym.

Mae gan y Gwasanaeth Cyngor ar Arian hefyd Gynllun Addysg yn y Gweithle sy'n cynnig sesiwn un awr yn rhad ac am ddim ar reoli arian i grwpiau o oedolion.

Hefyd, efallai hoffai athrawon archwilio rhai o'r cymwysterau lefel uwch y cyfeiriwyd atyn nhw dan Adran 5 y canllawiau hyn.

## Cynnwys rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr

Mae gan rieni a gofalwyr gyfoeth o brofiad uniongyrchol o faterion ariannol gan gynnwys cyllidebu, cynilion a barnu gwerth am arian. Maen nhw felly mewn sefyllfa unigryw i gynorthwyo i wella dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol. Gall materion ariannol megis arian poced, prynu ffôn symudol neu wneud arbedion ar filiau ynni, ddarparu gweithgareddau ar y cyd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr.

*Pan fydd ysgolion yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gyflwyno rhaglenni cydgysylltiedig, gellir harneisio'r ystod lawn o adnoddau ac arbenigedd i wella lles a chanlyniadau dysgwyr.*

*Yr ystafell ddosbarth yw'r ddolen hanfodol rhwng addysg a'r gymuned leol. Dengys ymchwil fod canlyniadau dysgu'n gwella pan geir cyd-ddealltwriaeth rhwng athrawon, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill o'r prosesau sy'n arwain at well dysgu a lles yn yr ystafell ddosbarth.*

*Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

## Adnoddau

Sefydlir meicrowefan UAAC ar blatfform Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GCaD). Mae tudalen adnoddau a gwefannau defnyddiol y safle'n nodi cyfoeth o ddeunyddiau gan gynnwys gemau rhyngweithiol a gweithgareddau i gefnogi ymarferwyr wrth gynllunio a chyflwyno addysg ariannol. Mae hwn yn gyfeiriadur enghreifftiol ond heb fod yn gynhwysfawr o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi datblygu gallu ariannol mewn plant a phobl ifanc.

Yn ogystal, mae'r Personal Finance Education Group (pfeg) yn elusen addysg a'i chenhadaeth yw y dylai pob person ifanc adael yr ysgol gyda'r hyder, y sgiliau a'r wybodaeth mae ei hangen arnyn nhw mewn materion ariannol. Mae'r safle'n cynnwys ystod o adnoddau, y rhan fwyaf yn rhad ac am ddim, ar gyfer addysgu addysg ariannol yn ogystal ag astudiaethau achos o weithgareddau addysgu a dysgu llwyddiannus. Mae gan pfeg Gynllun Marc Ansawdd sy'n sicrhau ymarferwyr bod yr adnoddau y dyfarnwyd y Marc Ansawdd iddyn nhw yn:

- gyfoes
- cywir
- wedi'u profi yn yr ystafell ddosbarth.

Mae Atodiad 3 hefyd yn rhoi manylion rhai o'r adnoddau a'r gwefannau hyn gan gynnwys gwybodaeth am adnoddau dwyieithog.

Mae Atodiad 4 yn rhoi enghreifftiau o'r modd gallai ysgolion gyfuno'r adnoddau hyn i gyflwyno addysg ariannol mewn cyd-destunau gwahanol.

# Atodiad 1: Gallu ariannol

Gellir rhannu gallu ariannol yn dair thema gysylltiedig – gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol, sgiliau a chymhwysedd ariannol, a chyfrifoldeb ariannol. Mae'r themâu'n gorgyffwrdd ac yn gysylltiedig.

- **Gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol** – sef bod â gwybodaeth a dealltwriaeth o natur arian a golwg grâff ar ei swyddogaeth a'r defnydd sydd iddo.
- **Sgiliau a chymhwysedd ariannol** – sef gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion ariannol ar draws ystod o gyd-destunau er mwyn ymdrin â materion rheoli arian o ddydd i ddydd ac i ddechrau meddwl am gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- **Cyfrifoldeb ariannol** – sef bod yn ymwybodol fod penderfyniadau ariannol ac ynghylch arian â chysylltiad agos â barnu gwerth a gallan nhw gael effaith nid yn unig ar y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, ond hefyd ar eu teulu ac ar y gymuned.

Efallai bydd ysgolion a cholegau yn gweld y disgrifiadau canlynol o ddysgwr call gydag arian o gymorth. Fe'u cynigir fel canllawiau ar gyfer ymarferwyr sydd am gynhyrchu profiad addysg ariannol gydlynol a phwrpasol i ddysgwyr.

## Sut olwg fyddai ar ddysgwr ariannol-alluog mewn ysgol gynradd?

Mae'r datganiadau sy'n dilyn wedi'u tynnu a'u cyfieithu o ddatganiadau sy'n dod o *Financial Capability through Personal Financial Education: Guidance for schools at Key Stages 1 & 2* (DfEE, 2000).

### Gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol

- Deall sut mae arian yn cael ei ddefnyddio yn ein cymdeithas, gan gynnwys arian tramor. Adnabod a defnyddio ystod o ddarnau arian ac arian papur yn ein harian cyfred ni. Deall fod gwahanol wledydd yn defnyddio gwahanol ddarnau arian ac arian papur.
- Gwybod fod arian yn fwy na darnau arian ac arian papur a chydnabod fod mathau eraill o arian yn bodoli gan gynnwys llyfrau siec, cardiau credyd a debyd, cwponau a thalebau. Dechrau deall y cysyniad o gredyd.

- Cydnabod gall arian ddod o amrywiaeth o ffynonellau a'i fod yn brin yn aml. Cydnabod y ceir ffynonellau rheolaidd o arian, e.e. arian poced, a ffynonellau na ellir eu rhagweld, e.e. rhoddion neu wobrau.
- Bod yn ymwybodol yr enillir arian drwy weithio neu, pan nad oes gwaith neu ddim digon o waith, gellir ei hawlio drwy fudd-daliadau.
- Deall fod angen arian arnon ni ar ôl i ni ymddeol a'r angen am gynilo ar gyfer pensiwn.
- Deall y broses o gyfnewid arian am nwyddau a gwasanaethau, a bod rhai pethau mae'n rhaid i bobl eu prynu a phethau eraill maen nhw'n dewis eu prynu. Sylweddoli fod gan oedolion gostau cartref ac ymrwymiadau ariannol rheolaidd.

### Sgiliau a chymhwysedd ariannol

- Deall sut gellir defnyddio gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian ac arian papur i dalu am nwyddau, neu i'w rhoi fel newid. Dewis gwerth cywir darnau arian a chyfrifo newid.
- Datrys problemau un cam, dau gam ac aml-gam yn ymwneud ag arian a phob un o'r pedair gweithred, gan ddewis a defnyddio strategaethau cyfrifo priodol.
- Dechrau gwerthfawrogi nad yw arian yn adnodd di-ben-draw a bod angen ei reoli. Cydnabod yr angen i gadw golwg ar arian a sut i gofnodi treuliau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan.
- Gwybod fod angen cadw arian yn ddiogel a bod gwahanol ffyrdd o wneud hyn gan gynnwys ei roi mewn cyfrif yn y banc, cymdeithas adeiladu neu swyddfa'r post. Deall pwysigrwydd cadw cofnodion ariannol gan gynnwys datganiadau banc.
- Dechrau dysgu sut i edrych ar ôl eu harian a deall manteision cynilo. Dechrau deall cysyniad llog a'i gyfrifo gan ddefnyddio'r pedair gweithred rhif.
- Cydnabod gallai fod angen cynilo arnon ni os nad oes digon o arian ar gyfer popeth rydyn ni eisiau, neu mae'n rhaid i ni ei brynu. Deall sut i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwario yn y dyfodol.
- Deall canlyniadau colli arian neu arian yn cael ei ddwyn.

- Dechrau ystyried yr angen am yswiriant oherwydd y tebygolrwydd o ddigwyddiadau annisgwyl.
- Deall risg ac elw syml.

### Cyfrifoldeb ariannol

- Ystyried yr amrywiaeth o ffyrdd gellir gwario arian.
- Cydnabod gallai incwm teuluol fod yn gyfyngedig a dechrau deall ei bod yn bwysig fod gwariant y cartref yn cyfateb i'r incwm.
- Adnabod anghenion a dymuniadau, a dechrau blaenoriaethu gwario cyflenwad cyfyngedig o arian.
- Cymharu a gwerthuso costau nwyddau a gwasanaethau tebyg a gwneud penderfyniadau doeth i gael 'gwerth am arian'. Gwerthfawrogi ei bod yn bwysig gwneud cymariaethau rhwng costau wrth reoli arian.
- Cydnabod gall penderfyniadau ar wariant a dewisiadau defnyddwyr gael eu dylanwadu gan hysbysebion a phwysau gan gyfoedion.
- Dadansoddi effaith posibl dewisiadau gwario unigol ar gymdeithas a'r amgylchedd yn lleol ac yn fyd-eang.
- Cydnabod fod y boddhad a geir o wario arian yn amrywio yn ôl natur y pryniant – pa mor hir mae'n para, pa mor dda mae'n perfformio.
- Gwerthfawrogi fod gan bobl wahanol safonau byw a deall canlyniadau bod â mwy neu lai o arian.
- Deall rôl elusennau.
- Deall bod dimensiwn moesegol i benderfyniadau ariannol.

## Sut olwg fyddai ar ddysgwr ariannol-alluog mewn lleoliad 11–19?

Mae'r disgrifiad hwn yn dwyn ynghyd y deilliannau dysgu o'r Gorchymyn mathemateg, y fframwaith ABCh, a'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith. Mae hefyd yn defnyddio *Developing Financially Capable Young People* (Ofsted, 2008) a diffiniad y Gwasanaeth Cyngor ar Arian o allu ariannol. Gall ysgolion a cholegau hefyd ychwanegu eu datganiadau eu hunain i adlewyrchu

anghenion ac amgylchiadau penodol eu disgyblion, a gaiff eu dylanwadu gan broffil cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y gymuned a wasanaethir ganddyn nhw.

### Gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol

- Deall sut gellir talu am nwyddau a gwasanaethau a sut gellir cadw arian yn ddiogel.
- Gwybod lle gellir cynilo arian a sut mae llog yn gwneud i gynilion dyfu. Cydnabod bod cynilo yn darparu annibyniaeth ariannol yn awr ac yn y dyfodol. Deall y risgiau sydd ynghlwm â gwahanol ffyrdd o gynilo a buddsoddi arian.
- Deall bod chwyddiant yn gallu lleihau gwerth arian dros amser.
- Deall sut gellir benthyca arian, a sut mae cyfraddau llog ac APR yn dangos cost benthyca. Deall eu cyfrifoldebau wrth ymgymryd â dyled, gan gynnwys canlyniadau peidio ag ad-dalu.
- Cydnabod gall arian lifo i mewn i gartrefi fel incwm o waith cyflogedig ac elw gweithgaredd entrepreneuraidd a gall budd-daliadau a rhoddion hefyd ddod ag arian i mewn i'r cartref. Deall sut caiff cyflogau wythnosol a misol eu cyfrifo a sut mae'r gwahanol ddidyniadau ohonyn nhw'n effeithio ar y cyflog sy'n mynd i'r cartref.
- Cydnabod gall yswiriant ddiogelu yn erbyn rhai risgiau ariannol.
- Deall fod gwledydd eraill yn defnyddio arian cyfred gwahanol a bod gwahanol ffyrdd o reoli arian pan fydd rhywun yn mynd dramor.
- Gwybod beth yw eu hawliau fel defnyddwyr, a gwybod lle gellir ceisio cyngor ariannol.

### Sgiliau a chymhwysedd ariannol

- Deall sut i ddefnyddio cyllideb fel adnodd i reoli eu harian a chadw golwg ar eu cyllid dros amser.
- Datrys problemau yn ymwneud â gwario, biliau'r cartref a dogfennau ariannol eraill, megis cyfriflenni banc, datganiadau benthyciadau a chardiau credyd, slipiau cyflog ac ati, a thynnu gwybodaeth ddefnyddiol ohonyn nhw.
- Cyfrifo a datrys problemau'n ymwneud â dod o hyd i werth gorau gan gynnwys cymharu gostyngiadau a'r bargeinion gorau i'w prynu.

- Cyfrifo a datrys problemau'n ymwneud ag elw a cholled mewn cyd-destun busnes.
- Cyfrifo a datrys problemau yng nghyd-destun cynilo (gan gynnwys deall llog cyfansawdd) a benthyca.
- Datrys problemau'n ymwneud â chyfraddau cyfnewid arian cyfred.
- Defnyddio ystod o ffynonellau i ganfod gwybodaeth am gynhyrchion ariannol i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau doeth yn eu cylch, a chydnabod pa bryd gallan nhw fod angen mynediad at gyngor ariannol.

## Cyfrifoldeb ariannol

- Sylweddoli pwysigrwydd cynllunio'u dyfodol ariannol a gwerthfawrogi gall aberthu gwariant ar hyn o bryd ddwyn manteision hirdymor. Dylen nhw ddeall bydd llawer o'r penderfyniadau a wneir ganddyn nhw eu bywydau yn arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol iddyn nhw ac i eraill.
- Datblygu synnwyr da o ran barnu sut gellir defnyddio arian yn effeithiol neu ei wastraffu.
- Gwerthfawrogi nad oes yn aml un ateb cywir wrth wneud penderfyniadau ariannol gan fod rhain yn dibynnu ar amgylchiadau a dewisiadau unigol. Mae ffactorau diwylliannol a chymdeithasol hefyd yn dylanwadu ar agweddau tuag at arian a bydd canlyniadau moesegol i'w dewisiadau gwario yn aml.
- Deall eu lle nhw, fel dinasyddion ariannol-weithredol, yn yr economi a'r gymdeithas ehangach – er enghraifft, sut gall eu gwariant (neu eu gweithgaredd entrepreneuraidd) gynhyrchu incwm ar gyfer busnesau a chyflogaeth, sut defnyddir y trethi a delir ganddyn nhw, a sut gall rhoi elusennol gynorthwyo eraill.
- Sylweddoli sut mae sefydliadau ariannol yn gwneud arian oddi wrthyn nhw pan fyddan nhw'n prynu neu ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau ariannol. Deall y caiff eu gallu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch cyllid personol a chynhyrchion ariannol ei gryfhau drwy ganfod a gwerthuso gwybodaeth berthnasol a chael mynediad at gyngor dibynadwy. Mae bod yn wybodus a sicrhau eu bod yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion ariannol yn cynnig peth amddiffyniad rhag hysbysebion llawn perswâd a sgamiau ariannol.

# Atodiad 2: Cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol ar draws y cwricwlwm

## Cyfleoedd yng Nghyfnod Allweddol 2

Mae'r diagram ar dudalen 27 yn rhoi enghreifftiau o weithgaredd dysgu a fydd yn galluogi datblygu agweddau ar allu ariannol – gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau a chymhwysedd a chyfrifoldeb – mewn ystod o gyd-destunau cwricwlaidd ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2.

## Cyfleoedd yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4

Yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, gosodir addysg ariannol yn gadarn o fewn addysg bersonol a chymdeithasol a mathemateg, ac i raddau llai gyrfaoedd a'r byd gwaith. Felly, i'r rhan fwyaf o ysgolion, y lle naturiol i gyflwyno addysg ariannol fydd o fewn rhaglenni gwaith y meysydd cwricwlwm hynny. Bydd angen i ysgolion benderfynu faint o amser i'w neilltuo ar gyfer addysg ariannol.

Er hynny, mae sawl cyfle arall i gyflwyno addysg ariannol mewn ysgolion uwchradd. Rhoddir enghreifftiau o nifer o'r rhain yn y diagram ar dudalen 28.

## Cyfleoedd am addysg ariannol ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2

### Mathemateg
***Defnyddio'r pedwar gweithrediad i ddatrys problemau sy'n cynnwys arian***
Dehongli derbynebau siopa gan nodi bargeinion gorau a gwerth am arian.
***Bod yn ymwybodol o arian cyfred arall***
Datblygu pecyn gwyliau i gyrchfan yng Nghymru ac yn Ewrop.
Cynhyrchu cronfa ddata i gymharu cost amrywiaeth o ddulliau teithio a llety.
Cynhyrchu 'cyfrifydd cyflym' i drosi o sterling i ystod o wahanol arian cyfred tramor.
***Defnyddio ffracsiynau a chanrannau i amcangyfrif rhannau o un cyfan***
Dod o hyd i'r llog gorau ar gynilion wrth benderfynu ym mhle i fuddsoddi cronfeydd yr ysgol.

### Addysg bersonol a chymdeithasol
***Archwilio'u gwerthoedd personol***
Trafod y datganiad 'Arian = Hapusrwydd'.
Ysgrifennu cwestiynau cadair goch ar gyfer cymeriadau stori, e.e. Y Brenin Midas neu Scrooge.
***Deall sut gall y penderfyniadau a wnawn fel unigolion a gyda'n gilydd effeithio ar yr amgylchedd***
Archwilio ffyrdd o ostwng biliau ynni'r ysgol.
Llunio ymgyrch ddosbarth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arbed ynni a'i chyflwyno mewn gwasanaeth boreol yn yr ysgol.

### Dylunio a thechnoleg
***Ymchwilio i sut y mae cynhyrchion sy'n bodoli eisoes yn edrych ac yn gweithio, a hynny er mwyn cael syniadau ar gyfer eu cynhyrchion eu hunain***
Archwilio dyfeisiau hysbysebu sy'n perswadio cwsmeriaid i brynu nwyddau a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio posteri a phecynnau gellir eu hailgylchu ar gyfer cynnyrch arbed ynni gan ddefnyddio ystod o gyfryngau gan gynnwys pecyn peintio TGCh.
***Datblygu rysáit syml ar gyfer eu cynhyrchion gan nodi'u bwriadau a'u dull gweithredu***
Trafod cost bwyta'n iach o'i chymharu â bwyta'n afiach.
Cynhyrchu taenlen ddata i ddadansoddi'r canfyddiadau a defnyddio hon i greu rysáit ar gyfer pryd rhad, iach i'r teulu.

### Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
***Defnyddio TGCh i archwilio a datrys problemau yng nghyd-destun gwaith ar draws amrywiaeth o bynciau***
Ymchwilio ac asesu'r pris gorau ar gyfer pryniant mawr, e.e. consol gemau electronig drwy ymweld â safleoedd cymharu siopa ar-lein neu shopbots.Coladu a threfnu canfyddiadau er mwyn cyflwyno a chyfiawnhau eich dewis o bryniant a'i ffynhonnell i gyfoedion.
***Ymchwilio i effaith newid y newidynnau mewn efelychiadau er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau 'Beth pe bai . . . ?'***
Cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol ar safleoedd megis www.moneyville.co.uk i gael cyfleoedd i wneud penderfyniadau â dewisiadau go iawn ynghylch arian sy'n dod i mewn ac arian sy'n mynd allan.

### Saesneg
***Profi ac ymateb i ystod eang o destunau sy'n cynnwys testunau â dimensiwn Cymreig***
Edrych ar sut defnyddir cyfoeth a thlodi i esbonio gwers foesol.
***Ysgrifennu mewn ymateb i ystod eang o ysgogiadau***
Archwilio'r ffyrdd mae hysbysebwyr yn defnyddio technegau marchnata sylfaenol i berswadio pobl i brynu neu fenthyca. Ysgrifennu a pherfformio sgript ar gyfer hysbyseb yn defnyddio'r technegau hyn.

### Daearyddiaeth
***Mesur, casglu a chofnodi data trwy waith ymchwil ymarferol a gwaith maes***
Archwilio a chofnodi faint o wasanaethau a mwynderau yn yr ardal leol sy'n cael eu talu drwy drethi'r llywodraeth. Trafod sut byddai'r ardal leol yn newid pe na byddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyllido'n briodol.
***Canfod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau trwy ddefnyddio globau, atlasau a mapiau***
Ymchwilio sut cynhyrchir cynnyrch Masnach Deg gan ddefnyddio ffotograffau a chlipiau fideo perthnasol fel ysgogiadau. Cynllunio llwybr y cynnyrch hwn i'n siopau.
Trafod sut mae prynu'r cynnyrch Masnach Deg hwn yn cysylltu ein bywydau ni â bywydau'r cynhyrchwyr.

## Cyfleoedd am addysg ariannol ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnodau 3 a 4

### Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

***Defnyddio TGCh i archwilio a datrys problemau***

Defnyddio taenlenni i adeiladu a thrin cyllideb cartref.

***Ystyried y materion cymdeithasol, economaidd, moesegol a moesol sy'n codi o ganlyniad i effaith TGCh a'r defnydd a wneir ohoni***

Ymchwilio i ddiogelwch y rhyngrwyd a thwyll manylion personol yng nghyd-destun bancio neu siopa ar-lein.

### Daearyddiaeth

***Astudio pobl fel defnyddwyr***

Edrych ar effaith eu penderfyniadau prynu ar gynhyrchwyr (yn lleol neu fyd-eang) a'r amgylchedd.

***Astudio pobl a'r blaned: patrymau a newid poblogaethau***

Dysgu sut mae strwythurau poblogaeth sy'n newid a chynnydd mewn disgwyliad oes yn effeithio ar bensiynau.

### Dylunio a thechnoleg

***Gwerthuso, mireinio ac addasu'u syniadau dylunio wrth iddyn nhw ddatblygu, a hynny mewn perthynas ag estheteg, gofynion synhwyraidd, ffordd iach o fyw, swyddogaeth, diogelwch, dibynadwyaeth, priodweddau defnyddiau, cynhwysion cydrannau, cynaliadwyedd a chost***

Ymchwilio a chyfrifo cost eu syniadau cynllunio, e.e. cymharu costau cynhwysion bwyd o wahanol siopau ac ymchwilio i oblygiadau cost defnyddio deunyddiau a geir yn gynaliadwy.

### Saesneg

***Cyfathrebu'n glir ac yn hyderus***

Archwilio materion ariannol cymhleth megis dyled drwy ddadlau a chwarae rôl.

### Ieithoedd tramor modern

***Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau iaith trwy ddefnyddio iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol, diddorol a chyfoes.***

Archwilio a thrafod materion yn ymwneud â phobl ifanc, arian poced a swyddi rhan-amser yng ngwledydd/cymunedau'r iaith darged.

Ymchwilio a chynllunio yn unol â chyllideb, ymweliad ag un o'r gwledydd hyn a darganfod ffyrdd o reoli arian dramor.

Archwilio a chyflwyno gwybodaeth am wahanol arian cyfred a ddefnyddir yng ngwledydd yr iaith darged a defnyddio'r arian mewn gweithgareddau ffug yn yr iaith darged.

### Addysg grefyddol

***Disgrifio ac esbonio'r nodweddion tebyg a gwahanol o fewn ac ar draws crefyddau***

Archwilio traddodiadau ynghylch rhoi elusennol mewn gwahanol grefyddau.

***Esbonio effaith crefydd ar fywydau unigolion***

Edrych ar sut mae agweddau tuag at ddyledion a thalu llog yn effeithio ar benderfyniadau ariannol personol mewn gwahanol grefyddau.

### Hanes

***Archwilio a dehongli sut mae rhai unigolion a digwyddiadau'r ugeinfed ganrif wedi llunio ein byd heddiw***

Edrych ar ganlyniadau caledi ariannol mawr ar gartrefi megis y Dirwasgiad Mawr yng Nghymru a'r byd ehangach, ac edrych ar ymateb unigolion a llywodraethau iddyn nhw.

# Atodiad 3: Adnoddau defnyddiol

Mae meicrowefan UAAC yn rhoi rhestr o adnoddau defnyddiol i ymarferwyr, gan gynnwys gwybodaeth am adnoddau dwyieithog. Mater i ysgolion yw dewis adnoddau yn unol â'u hanghenion. Er hynny, efallai bydd o gymorth iddyn nhw nodi bod yr adnoddau isod wedi'u cymeradwyo gan ymarferwyr yng Nghymru.

## Cyfnod Allweddol 2

**Ceiniogau a Phunnoedd/Pounds & Pence**
Pecyn adnoddau printiedig rhad ac am ddim yn Gymraeg neu'n Saesneg i ysgolion cynradd. Mae'r adnodd yn annog dysgwyr i feddwl am arian a phrisiau drwy weithgareddau ar draws y cwricwlwm.
www.bankofengland.co.uk/education/poundsandpence/

**Mae Arian yn Cyfrif/Money Counts**
Adnodd dwyieithog a ysgrifennwyd gan BEAM ar gyfer yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Mae'n darparu gweithgareddau creadigol ar gyfer ysgol gyfan, dosbarth cyfan a grwpiau i ddatblygu dealltwriaeth plant o arian.

Dylai fod gan bob ysgol gopi eisoes ond gellir cael copïau ychwanegol o www.beam.co.uk

**Making Sense of Money**
Llyfr lliwgar o gemau i gynorthwyo wrth wella sgiliau dysgwyr o ran adnabod darnau arian, adio arian, cyfnewid darnau arian am nwyddau a chyllidebu, cadw arian yn ddiogel a dewis sut i wario arian.

Ar gael o ficrowefan UAAC (yn ddwyieithog) neu oddi wrth y Children's Mutual (Saesneg yn unig).

**Money Event**
Dyma ganllawiau ar drefnu digwyddiad ar thema arian ar gyfer plant 4–11 oed ac mae'n darparu ystod eang o adnoddau sydd ar gael i gefnogi athrawon ar draws holl gyfnodau addysg gynradd.
www.nicurriculum.org.uk/fc

**My Money Primary Toolkit**
Pecyn i athrawon yn cynnwys cynlluniau gwersi a gweithgareddau ym maes ABCh a mathemateg ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.
www.pfeg.org/teaching_resources/resources/mm_primary_toolkit.html

**On the Money**
Mae'r adnodd hwn yn rhoi sylw i bynciau cyllid a menter drwy ddefnyddio straeon byrion bydd dysgwyr yn uniaethu â nhw ac yn eu cael yn ddoniol. Mae'r nodiadau i athrawon a ddaw gyda'r adnodd yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut gellir defnyddio pob stori i roi sylw i gyllid personol.
www.ltscotland.org.uk/onthemoney

**Tipyn o Dderyn!/A Bird's Eye View!**
Mae'r adnodd dwyieithog hwn ar ffurf llyfr gwaith i ddysgwyr, yn anelu at godi ymwybyddiaeth o allu ariannol drwy ganolbwyntio ar faterion ariannol sy'n cynnwys gwariant, ennill arian, cyllidebu a chyfnewid arian tramor drwy weithgareddau trawsgwricwlaidd.

Ceir copïau am ddim oddi wrth y Royal Liver Group,
ffôn: 0151 236 1451

## Dysgu 11–19

Mae'r holl adnoddau canlynol yn ddwyieithog heblaw am *Planning your Holiday – Developing Financial Capability school mathematics* a *Responding Responsibly: Thematic Unit – Money Matters*.

**Adding Up To A Lifetime** (yn cynnwys opsiwn sain yn Gymraeg).

Mae'r adnodd ar-lein hwn yn ymdrin ag ystod eang o bynciau addysg ariannol drwy ddilyn pedwar o bobl ifanc drwy'u bywydau.
www.autal.org.uk

**Agor Drysau (*Housemate*)**
Adnodd Shelter Cymru sy'n edrych ar dai a digartrefedd ac yn cynnwys adran ddefnyddiol ar fyw'n annibynnol. Dylai hwn fod ar gael mewn ysgolion eisoes.
www.housemate.org.uk/cym/home/Default.aspx
http://cymraeg.sheltercymru.org.uk/library/education.aspx?ParentID=5&year=0&type=1&subcat=20

**Banciwch arno**
Mae hwn yn gyfieithiad o adnodd Nat West/RBS *Bank on it* ac mae'n cyflwyno dysgwyr i fanciau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddyn nhw, cyllidebu personol a goblygiadau ariannol penderfyniadau'r dysgwyr. Mae'n un o bedair uned addysg ariannol MoneySense.
www.natwestf2f.com/cymrumoneysense/schools.asp

**CLICarlein**
Mae'r wefan ddwyieithog hon yn cynnwys adran 'Arian' dan y ddolen 'Gwybodaeth' sy'n ymdrin â sawl pwnc ym maes addysg ariannol mewn ffordd sy'n hawdd i'r dysgwr ei defnyddio. Mae peth o'r deunydd sydd ar y wefan hefyd ar gael ar y CD-ROM dwyieithog *Ymdrin â dyled* (*Dealing with debt*) – CD-ROM dwy iaith sydd eisoes ar gael mewn ysgolion.
www.clicarlein.co.uk

**Craig o Arian (*Made of Money*)**
Mae'r adnodd hwn gan Fanc Lloegr yn cynnwys rhai adnoddau dwyieithog ac mae'n anelu at gynorthwyo dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 i ddeall beth yw'r economi, sut mae'n gweithio a sut mae'n berthnasol iddyn nhw.
www.bankofengland.co.uk/education/madeofmoney/index.htm
(yna dewiswch 'Llwytho Adnoddau i Lawr')

**CU@theCU**
Adnodd dwyieithog rhyngweithiol yn canolbwyntio ar undebau credyd mewn ysgolion ac yn y gymuned yn gyffredinol.
www.cuinschools.org/index.php?lang=cy

**Eisiau bet! (*You bet!*)**
Adnoddau addysgol dwyieithog ar-lein gan Tacade ar gyfer plant 11 i 16 oed yn ymdrin â gamblo.
www.tacade.com/publications_gambling.php

**Finance Skills/Personal Finance**
Taflenni gwaith mathemateg o fewn adrannau adnoddau 'Finance Skills/Personal Finance' gwefan Nationwide Education sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. (Mae gweddill yr adnodd hwn ar gael yn Saesneg yn unig.)
www.nationwideeducation.co.uk/www/index.php

**Gweithgareddau Llythrennedd Ariannol ar gyfer: Dysgwyr Lefel Mynediad 3**
Dyfynnwch god A2375 (fersiwn Saesneg) neu A2376 (fersiwn Cymraeg).

**Gweithgareddau Llythrennedd Ariannol ar gyfer: Dysgwyr Lefel Mynediad 2**
Dyfynnwch god A2315 (fersiwn Saesneg) neu A2362 (fersiwn Cymraeg).

Mae'r ddau adnodd Sgiliau Sylfaenol Cymru hwn yn anelu at wella gallu ariannol, yn ogystal â sgiliau llythrennedd, iaith a rhifedd.

I archebu, ffoniwch 0845 603 1108 a dewis opsiwn 3, neu gysylltwch â Sgiliau Sylfaenol Cymru ar bscprintssc@wales.gsi.gov.uk

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/basicskillscymru/?skip=1&lang=cy

**Planning your Holiday – Developing Financial Capability school mathematics** (fersiwn Gogledd Iwerddon)
Wedi'i anelu at ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3, mae'r adnodd hwn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau addysg ariannol ar thema gwyliau, yn bennaf drwy fathemateg ond hefyd gan ddefnyddio ABCh a daearyddiaeth fel cyd-destun.

Ar gael o wefan CCEA yn
www.nicurriculum.org.uk/key_stage_3/areas_of_learning/mathematics/activities/planning_your_holiday.asp neu www.pfeg.org

**Responding Responsibly: Thematic Unit – Money Matters** Adnodd anghenion addysgol arbennig Gogledd Iwerddon.
Arian – beth ydyw? Pam fod ei angen arnon ni? Sut mae ei gael? Ble ddylen ni ei gadw? Sut ydyn ni'n ei wario? Sut mae'n effeithio arnon ni? Mae'r adnodd hwn yn cynnwys atebion syml i'r cwestiynau hyn a hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud â gwario moesegol.
www.nicurriculum.org.uk/docs/inclusion_and_sen/sld/responding_responsibly/money_matters.pdf

**Rheoli Arian (*Spending Sense*)**
Mae fersiwn dwyieithog o'r adnodd hwn, sy'n addas i'w ddefnyddio gan ysgolion yng Nghymru, wedi'i anfon i bob ysgol uwchradd.Lluniwyd ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 gydag anghenion addysgol arbennig canolig, mae'r rhan fwyaf o'r unedau hefyd yn addas i'w defnyddio gyda grwpiau gallu cymysg ac maen nhw'n cwmpasu amrywiaeth o byncіau dan y penawdau ariannol 'Prynu a gwerthu', 'Ffynonellau incwm' a 'Datrys problemau'.
Ar gael o ficrowefan UAAC, neu o
www.pfeg.org/teaching_resources/resources/spending_sense.html

**Sgiliau Ariannol 14–17 (*Money skills 14–17*)**
Mae'r adnodd hwn yn defnyddio gwaith grŵp a dulliau eraill i ddarparu cyflwyniad sylfaenol i agweddau allweddol ar gyllid personol a chyffredinol.

Mae'r fersiwn Saesneg ar gael yn
www.pfeg.org/teaching_resources/resources/money_skills1417.html

**Sgiliau Ariannol 16–25 (*Money skills 16–25*)**
Adnodd gallu ariannol a anelir yn bennaf at bobl ifanc agored i niwed ond sy'n cynnwys adnoddau a gweithgareddau addas i'w defnyddio gyda phob dysgwr ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

Mae'r fersiwn Saesneg ar gael yn
www.pfeg.org/teaching_resources/resources/money_skills1625.html

**Wythnos Arian – Syniadau (*Money Week – Ideas*)**
Adnoddau gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (Gwasanaeth Cyngor ar Arian erbyn hyn) ar gyfer addysg bellach (16–19) sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau addysg ariannol ac astudiaethau achos.
www.moneyadviceservice.org.uk/workingwithus/youngpeople

**Yn Gall Gydag Arian**
Mae'r adnodd hwn gan Sgiliau Sylfaenol Cymru yn anelu at wella llythrennedd ariannol dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sydd â sgiliau hanfodol ar Lefel 1 ac is. Dylai'r CD-ROM (cod archebu A5181), y pecyn tiwtor ar wahân (cod archebu A5180) a'r pecyn myfyrwyr yn cynnwys llawlyfr Llythrennedd Ariannol a Geirfa (cod archebu A5182) fod mewn ysgolion eisoes.

I archebu mwy, ffoniwch 0845 603 1108 a dewis opsiwn 3, neu cysylltwch â Sgiliau Sylfaenol Cymru ar bscprintssc@wales.gsi.gov.uk
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/basicskillscymru/?skip=1&lang=cy

# Atodiad 4: Syniadau ar gyfer cychwyn arni/gwella safonau

## Cyfnod Allweddol 2

Yn Ysgol A, fel rhan o waith Saesneg a hanes Blwyddyn 5 ar *A Christmas Carol* gan Dickens, gofynnwyd i'r dysgwyr ystyried y datganiad 'Arian = Hapusrwydd'. Bu'r dysgwyr yn trafod y datganiad mewn grwpiau ac yna adrodd yn ôl i'r dosbarth. Datblygwyd cartŵn cysyniad dosbarth o'r adborth a'i arddangos ynghyd â'u gwaith ar y nofel. Teimlai'r athrawes bod gwrando ar drafodaethau cyfoethog y dysgwyr nid yn unig yn caniatáu iddi asesu eu sgiliau cyfathrebu, ond hefyd yn rhoi cipolwg iddi ar ragdybiaethau a chamsyniadau dysgwyr yng nghyswllt nifer o faterion ariannol.

Yn Ysgol B, defnyddiodd dysgwyr Blwyddyn 6 *Making Sense of Money* (Children's Mutual Society, 2009) fel enghraifft i greu gemau arian ar gyfer dysgwyr iau. Roedd y gemau a gynhyrchwyd yn cynnwys sawl agwedd ar addysg ariannol gan gynnwys cyfrifiadau arian, siopa a chynilo. Roedd cardiau 'Siawns' yn gwobrwyo chwaraewyr gydag arian annisgwyl neu'n gosod costau brys i'r cartref arnyn nhw. Roedd cardiau 'Cymunedol' yn caniatáu darparu rhoddion i elusennau a nawdd. Treialwyd y gemau gan ddosbarthiadau Blwyddyn 3 a'r Cyfnod Sylfaen fel rhan o ddigwyddiad Wythnos Arian yr ysgol.

Yn Ysgol C, defnyddiodd dysgwyr Blwyddyn 4/5 *Penny Wise Finds Out About Bills and Taxes* (Southgate Publications) fel rhan o'u gwaith ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF). Ar ôl darllen y stori fer, ymchwiliodd y dysgwyr i faint o ynni a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y cartref bob dydd, a'r ffyrdd gallen nhw arbed ynni. Wedyn cyflwynodd pob grŵp adroddiad i'r dosbarth ar eu strategaethau arian ac ynni gan ddefnyddio PowerPoint. Teimlai'r athrawes fod mwynhad y dysgwyr o stori Penny Wise wedi'u hysgogi nhw ar gyfer gwaith dilynol. Roedd y dysgwyr wedi defnyddio nifer o sgiliau ar draws y cwricwlwm yn ogystal â chael dealltwriaeth dda o sut gallan nhw gyfrannu at wella cynaliadwyedd yr amgylchedd.

Yn Ysgol Ch, yn dilyn digwyddiad datblygiad proffesiynol parhaol (DPP) addysg ariannol gynradd, defnyddiodd athro mewn ysgol arbennig amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau i wella gallu ariannol y dysgwyr. Dechreuodd yr athro drwy annog y dysgwyr i edrych yn fanwl ar ddarnau arian a thrafod eu gwerth. Wedi hyn bu'r dysgwyr yn gwneud gweithgareddau datrys problemau er mwyn cyrraedd cyfanswm penodol a nodwyd. Defnyddiwyd adnoddau rhifedd, megis cardiau 'loop' a ddosbarthwyd yn ystod y cwrs, i ddatblygu strategaethau mathemateg dysgwyr. Yna symudodd y

drafodaeth ymlaen at y cysyniad o gyllidebu – a osodwyd mewn sefyllfa bywyd go iawn wrth i'r dysgwyr gynllunio a chyllidebu ar gyfer barbiciw dosbarth. Roedd hyn yn cynnwys edrych am y pethau gorau i'w prynu ar-lein ac yna siopa ar gyfer eu hanghenion. Gwnaeth yr athro sylw ynghylch cyn lleied o amser a dreuliwyd yn edrych ar ddarnau arian ac yn trafod eu gwerth yn y gorffennol, a theimlai fod hyn wedi bod yn werth chweil. Roedd gan y dysgwyr lawer o ddiddordeb yn y gwersi a llawer o frwdfrydedd ac roedden nhw wedi mwynhau'n arbennig y siopa ar-lein ac yn yr archfarchnad.

## Dysgu 11–19

Yn Ysgol A, roedd yr adran fathemateg eisiau canfod adnoddau i gyflwyno agweddau ar addysg ariannol ac i ategu gwaith oedd eisoes yn cael ei wneud ar y pwnc mewn gwersi ABCh. Yng Nghyfnod Allweddol 3 dewiswyd unedau o *Talk Money Talk Maths* a thaflenni gwaith o *Savings and Lifeskills*. Trefnwyd 'Diwrnod Arian' Blwyddyn 9 o gwmpas y thema 'cynllunio gwyliau' gan ddefnyddio *Planning your Holiday – Developing Financial Capability through mathematics* (fersiwn Gogledd Iwerddon) fel y prif adnodd gan ychwanegu ato ddarnau o *Adding Up To A Lifetime (Life as a student – Holidays)*. Cynhyrchwyd deunydd portffolio ar gyfer Lefel 1 Sgiliau Hanfodol Gweithio gyda Rhif yn sgil nifer o weithgareddau'r Diwrnod Arian.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddiodd yr adran fathemateg unwaith eto'r adnodd *Savings and Lifeskills*, gan gynnwys y gemau rhyngweithiol *Finance Finder and Currency Challenge* fel gweithgareddau dechreuol, ynghyd â detholiad o weithgareddau mathemategol gyfoethog o *Money Management – Smart Consumer*. Byddan nhw'n defnyddio detholiad o unedau o *My Money Mathematics Resources* i gwmpasu pynciau addysg ariannol pellach.

Yn Ysgol B, roedd y cydlynydd ABCh yn chwilio am adnoddau i ategu agweddau addysg ariannol uned 'Paratoi am fwy'n annibynnol' yr ysgol ym Mlwyddyn 11 ac yn benodol i annog dysgwyr i ystyried eu cyfrifoldebau yn nhermau rheoli cyllideb a sylweddoli pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol. Defnyddiwyd *Adding Up To A Lifetime* ar gyfer cyflwyno dosbarth cyfan i rai pynciau a chyflwyniadau PowerPoint o adnoddau addysgu ar wefan *Make Money Make Sense* ar gyfer eraill. Yna defnyddiwyd gweithgareddau myfyrwyr o *Spending Sense* fel adnodd craidd i atgyfnerthu ystod o bynciau megis cyllidebu, tâl a budd-daliadau, dyled a 'gwario meistrolgar'. Defnyddiwyd gweithgareddau o *Agor Drysau (Housemate)* Shelter Cymru i ymestyn

y pwnc cyllidebu ac anogwyd dysgwyr hefyd i ddefnyddio gwefannau *CLICarlein* a *DoughUK* ar gyfer ymchwil unigol. Defnyddiwyd yr adnoddau ar wefan MoneySense ganddyn nhw i ymdrin â chynilion a rhedeg cyfrif banc a'r adnodd ar y we *CU@theCU* i addysgu dysgwyr am ddewisiadau dielw eraill megis undebau credyd.

Sylweddolodd Ysgol C, sy'n ysgol arbennig, botensial ysgogol addysg ariannol i ymgysylltu â'u dysgwyr a'u cynorthwyo i wella'u Sgiliau Hanfodol. Defnyddiwyd *Money Matters: Learning for Life and Work (SLD)* (adnodd AAA Gogledd Iwerddon) gyda rhai grwpiau bach a CD-ROM Sgiliau Sylfaenol Cymru 'Yn Gall Gydag Arian' (*Cash Confident*) a gweithgareddau o adnoddau Lefel Mynediad 1 a Lefel Mynediad 2 Sgiliau Sylfaenol Cymru gydag eraill. Drwy ddefnyddio detholiad o weithgareddau o *Spending Sense* llwyddwyd i gwmpasu agweddau ehangach ar bynciau addysg ariannol a datblygu sgiliau eraill.

Roedd Coleg Ch eisiau adnoddau a gweithgareddau i'w defnyddio ar gyfer eu hunedau tiwtorial ar reoli arian. Defnyddiwyd yr adnoddau astudiaethau achos o wefan y Gwasanaeth Cyngor ar Arian ar gyfer addysg bellach (16–19). Dewiswyd hefyd amrywiaeth o weithgareddau o *Money skills 16–25, Money Management – Running a home,* a *MoneySense – Credit Worthy*.

Roedd Ysgol D yn chwilio am ffyrdd i drefnu addysg ariannol mewn themâu. Byddai rhai o'r rhain yn cael eu cyflwyno fel dyddiau gohirio amserlen ac eraill fel blociau wedi'i hamserlennu mewn gwersi ABCh. Deilliodd y syniadau canlynol o sesiwn gynllunio.

- **Gwario meistrolgar a chynilo**
  Ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn. Yn cwmpasu – cael gwerth am arian, deall hysbysebu, siopa'n ddiogel ar y rhyngrwyd (mewnbwn gan yr adran TG), hawliau defnyddwyr, gwario moesegol (cynnwys addysg grefyddol a daearyddiaeth), ffyrdd o gynilo (gan gynnwys 'materion sylfaenol bancio').

- **Ennill bywoliaeth**
  I'w gyflwyno tua'r un amser â phrofiad gwaith Cyfnod Allweddol 4 neu i'w gyfuno â sesiynau gyrfaoedd cyn hynny. Yn cwmpasu – ffactorau'n effeithio ar gyflogau; treth, pensiynau a didyniadau eraill o gyflog (eu cyfrifo, ac i ba ddiben maen nhw'n cael eu defnyddio); hunangyflogaeth; cynllunio i ariannu'r ffordd o fyw a ddymunan nhw; cyllidebu.

- **Byw'n annibynnol**
  Blwyddyn 11 ac ôl 16. Yn cwmpasu – opsiynau o ran lle i fyw (rhentu, prynu), cyllidebu ar gyfer y pethau sylfaenol (bwyd, rhent, ynni, yswiriant priodol ac ati), deall dyled, ffynonellau incwm (cyflogaeth, hunangyflogaeth, Lwfans Cynhaliaeth Addysg, budd-daliadau, arian myfyrwyr) ac ariannu bywyd teuluol.
- **Cael gafael ar olwynion**
  Blwyddyn 11 ac ôl 16. Yn cwmpasu – cyllidebu i basio'r prawf gyrru a phrynu a rhedeg car, opsiynau o ran benthyca, yswiriant a threth. Gellid ei ehangu i gynnwys diogelwch ar y ffordd, materion yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau, materion amgylcheddol yn gysylltiedig â chludiant.
- **Amser cael hwyl!**
  Ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn. Yn cwmpasu – cyllidebu ar gyfer bywyd cymdeithasol da, cynilo ar gyfer achlysuron pwysig, cynllunio gwyliau yn unol â chyllideb (cael 'gwerth am arian' o ran llety a chludiant), opsiynau cynilo, yswiriant a materion ynghylch arian tramor. Cynnwys adrannau ieithoedd tramor modern, mathemateg a daearyddiaeth.

# Atodiad 5: Partneriaid posibl

| **Enw'r corff** | **Maes diddordeb sy'n berthnasol i addysg ariannol** | **Manylion eraill** |
|---|---|---|
| Shelter Cymru | Materion tai a digartrefedd. Byw'n annibynnol. | Mae *Agor Drysau*, adnodd addysgu dwyieithog, ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru.<br>Efallai gall Shelter Cymru drefnu ymweliad ag ysgol, coleg neu glwb ieuenctid.<br>e-bost: education@sheltercymru.org.uk<br>Gwefan: www.sheltercymru.org.uk www.housemate.org.uk |
| Cyngor ar Bopeth | Mae canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor am ddim ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys rheoli dyled a chyllidebu. | Cysylltwch â'ch canolfan Gyngor ar Bopeth lleol.<br>Mae eu hadnodd ar-lein *Make Money Make Sense* i'w gael ar www.moneymakesense.co.uk |
| Elusennau datblygu, e.e. ActionAid, Oxfam a CAFOD. | Mae sawl elusen ddatblygu yn cynhyrchu deunydd ynghylch masnach, cymorth, datblygiad cynaliadwy ac ati sy'n ymdrin â llawer o ganlyniadau moesegol ein gwariant. Mae rhai hefyd yn gweithio'n uniongyrchol ag ysgolion. | Cysylltwch â'r elusennau. |
| Adran Safonau Masnach | Materion defnyddwyr. | Cysylltwch â'ch Adran Safonau Masnach leol. |
| Debtcred | Mae Debtcred yn elusen addysgol sy'n hyfforddi gwirfoddolwyr o gwmnïau gwasanaethau ariannol i gyflwyno sesiynau addysg ariannol mewn ysgolion. Maen nhw'n defnyddio eu hadnoddau eu hunain. | Mae eu hadnodd ar-lein *Your Money and Your Life* i'w gael ar www.debtcred.org/materials.html |

| | | |
|---|---|---|
| Banciau a chwmnïau gwasanaethau ariannol eraill | Rhai yn cefnogi addysg ariannol mewn ysgolion. | Mae llawer wedi cynhyrchu adnoddau addysg ariannol ac mae rhai hefyd yn rhedeg cynlluniau sy'n cynnwys gweithwyr banc yn ymweld ag ysgolion i weithio gyda dysgwyr.<br>Ymhlith yr enghreifftiau mae:<br>• NatWest *MoneySense* – adnodd ar y we yn ymdrin â bancio ac ystod o bynciau addysg ariannol eraill Gall staff NatWest ymweld ag ysgolion i gefnogi'r cyflwyniad. http://moneysense.natwest.com/natwest/schools.asp<br>• Mae Barclays hefyd yn gweithio gydag ysgolion ac wedi cynhyrchu ystod o adnoddau. |
| Cymdeithasau tai | Rhai yn cefnogi addysg ariannol mewn ysgolion. | Cysylltwch â chymdeithasau tai lleol. |
| Undebau credyd | Rhai yn cefnogi addysg ariannol mewn ysgolion | Cysylltwch â'ch undeb credyd lleol.<br>Mae'r adnodd i ysgolion uwchradd *CU@theCU* ar gael yn www.cuinschools.org |
| Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru | Sefydlwyd i fynd i'r afael â 'siarcod benthyg arian'. Mae'n cynhyrchu peth deunydd addysgol. | Cysylltwch â Safonau Masnach Caerdydd. |
| Cwmnïau Gyrfa Cymru | Peth gwaith mewn ysgolion ar brosiectau gydag elfen o addysg ariannol. | Cysylltwch â'ch Cwmni Gyrfa Cymru lleol. |
| Techniquest | Mae *Back Stage Maths,* sesiwn Cyfnod Allweddol 3 yn canolbwyntio ar fathemateg, ymysg ystod o adnoddau a gynigir fel rhan o wasanaethau estyn allan i ysgolion; mae adnoddau penodol yn gysylltiedig â llythrennedd ariannol yn cael eu datblygu. | Cysylltwch â Techniquest am fanylion pellach ynghylch yr holl wasanaethau ac adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm mewn ysgolion. www.techniquest.org |

# Atodiad 6: Deunyddiau cefndirol


*Cynllun Strategol Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) 2009–11* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

*Financial Capability through Personal Finance Education: Guidance for Schools at Key Stages 1 & 2* (DCSF, 2000)

*Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

*Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

*Sgiliau Hanfodol Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)